LANEq413

# Rheoli’r gwaith o storio a dosbarthu semen ceffylau at ddefnydd allanol

## Trosolwg

Mae'r safon hon yn ymwneud â rheoli'r gwaith o storio a dosbarthu semen ceffylau at ddefnydd allanol.   Bydd hyn yn cynnwys trefnu a goruchwylio'r gwaith o storio semen, prosesu'r semen ceffylau i gael ei ddosbarthu, yn cynnwys semen ceffylau wedi ei oeri a'i rewi, a rheoli staff a phennu polisi iard.

Bydd angen i chi fod yn gwbl ymwybodol o bwysigrwydd iechyd, diogelwch a lles anifeiliaid mewn cysylltiad â'r gweithgaredd hwn.

Bydd angen i chi sicrhau eich diogelwch eich hun ac eraill, a lles y ceffylau, yr holl amser.

## Meini prawf perfformiad

*Rhaid i chi allu:*

1. sicrhau bod dillad ac offer amddiffynnol personol yn cael eu gwisgo ar gyfer y gweithgaredd hwn
2. dewis a gweithredu mesurau hylendid a bioddiogelwch priodol a sicrhau eu bod yn cael eu cynnal
3. rheoli'r gwaith o baratoi semen ceffylau gan ddefnyddio dulliau priodol ac yn unol â manylebau cynhyrchu ar gyfer dosbarthu a defnydd allanol
4. adnabod semen ceffylau sydd o ansawdd anaddas i gael ei ddosbarthu a chymryd y camau unioni
5. sicrhau bod samplau semen ceffylau'n cael eu labelu'n glir ac yn gywir
6. rheoli'r gwaith o bacio samplau o semen ceffylau a sicrhau eu bod yn cael eu rhoi mewn cynwysyddion sydd yn addas ar gyfer y math o semen sydd yn cael ei ddosbarthu
7. rheoli'r dogfennau cywir i gyd-fynd â'r semen ceffylau yn unol â gofynion y ddeddfwriaeth berthnasol a'r sefydliad
8. trefnu bod y semen yn cael ei gasglu neu ei bostio atoch yn unol â pholisi eich sefydliad
9. gwneud addasiadau angenrheidiol i ddulliau gweithio ac offer trwy gydol y broses a gweithredu'n briodol os byddwch yn cael anawsterau
10. gwneud y gwaith i gyd yn unol â deddfwriaeth a chodau ymarfer perthnasol
11. ymdrin â gwastraff yn ddiogel ac yn gywir, yn unol â deddfwriaeth
12. sicrhau bod cofnodion priodol yn cael eu cadw a'u storio yn unol â gofynion y ddeddfwriaeth berthnasol a'r sefydliad yr ydych yn gweithio iddo
13. asesu peryglon a rheoli'r perygl i geffylau, i chi eich hun ac i eraill mewn cysylltiad â'r gweithgaredd hwn

## Gwybodaeth a dealltwriaeth

*Mae angen i chi wybod a deall:*

1. pa ddullad ac offer amddiffynnol personol y dylid eu gwisgo ar gyfer y gweithgaredd
2. pwysigrwydd cynnal hylendid a bioddiogelwch a'r dulliau ar gyfer cyflawni hyn
3. y dulliau o brosesu semen ceffylau i gael ei ddosbarthu ar gyfer defnydd allanol, yn cynnwys semen ceffylau wedi ei oeri a'i rewi
4. y ffyrdd y mae'n rhaid labelu samplau o semen ceffylau wrth eu cludo ar gyfer defnydd allanol
5. sut i ddefnyddio a chynnal a chadw cynwysyddion ceffylau, tybiau bach a chludwyr sych ar gyfer dosbarthu semen ceffylau
6. yr ardystiad a'r dogfennau iechyd cywir i gyd-fynd â semen ceffylau
7. y trefniadau storio i fodloni deddfwriaeth berthnasol ar gyfer semen ceffylau wedi ei rewi yn y DU a'r UE
8. y ddeddfwriaeth bresennol yn ymwneud â thrwydded allforio'r UE a chymeradwyaeth
9. y dulliau cywir o waredu gwastraff a deunydd dros ben
10. y cofnodion priodol i'w cadw a'u harwyddocâd
11. y peryglon i geffylau, i chi eich hun ac i eraill a sut y caiff rhain eu rheoli
12. eich cyfrifoldebau yn unol â deddfwriaeth a chodau ymarfer iechyd a lles anifeiliaid ac iechyd a diogelwch perthnasol

LANEq413

Rheoli'r gwaith o storio a dosbarthu semen ceffylau at ddefnydd allanol

| | |
|---|---|
| **Datblygwyd gan** | Lantra |
| **Dyddiad cymeradwyo** | 31 Ion 2017 |
| **Dyddiad Adolygu Dangosol** | 31 Ion 2021 |
| **Dilysrwydd** | Ar hyn o bryd |
| **Statws** | Gwreiddiol |
| **Sefydliad cychwynnol** | Lantra |
| **RCU gwreiddiol** | LANEq413 |
| **Galwedigaethau perthnasol** | Rheolwr Ceffylau |
| **Cyfres/Set** | Ceffylau |
| **Geiriau Allweddol** | ceffylau; ceffyl; semen |